

2021

Polisi datblygu dulliau integredig i gefnogi dysgu cyfunol
YSGOL BRO MYRDDIN – IONAWR 2021



L Jones (Ysgol Gyfun Gymraeg Bro
Myrddin)

Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

1/1/2021

Datblygu dulliau integredig i gefnogi dysgu cyfunol

Nod

Gan adeiladu ar y canllawiau dysgu a gyhoeddwyd **fwyaf diweddar** gan Lywodraeth Cymru <https://hwb.gov.wales/parthau/cadwn-ddiogel-ar-lein/ffrydio-byw-a-fideo-gynadledda-arferion-ac-egwyddorion-diogelu>

mae'r ddogfen yma yn nodi'r arfer gorau a'r dulliau dysgu cyfunol gorau i gefnogi ymarferwyr a chanllawiau gweithredu perthnasol.

Egwyddorion sylfaenol

Mae diogelu yn un o egwyddorion hanfodol dysgu digidol. Diogelwch a lles dysgwyr yw'r ystyriaeth bwysicaf, ac mae hynny'n cael blaenoriaeth dros yr holl ystyriaethau eraill.

Bydd Ysgol Bro Myrddin yn ystyried y ddarpariaeth ac yn ymateb i'r gofynion ar sail asesiad risg, cynhwysedd y safle, argaeledd staff, nifer y dysgwyr a pha mor aml y gallant fynychu'r sefydliad yn ddiogel. Rydym yn dod i benderfyniad ar sail yr hyn sy'n gweithio orau mewn dysgu cyfunol ac wedi ystyried barn disgyblion, rhieni a staff wrth wneud hynny.

Y prif egwyddorion – diogelu wrth galon ein gwaith

- Boed y dysgwyr gartref neu yn yr ystafell ddosbarth, diogelu dysgwyr a'u lles yw'r ystyriaeth bwysicaf, ac mae hynny'n cael blaenoriaeth dros bob ystyriaeth arall.
- Rydym yn parhau i ddilyn polisiâu diogelu'r ysgol neu'r lleoliad bob amser. Rydym yn ymdrin â phob mater sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein yn yr un ffordd ag y byddwn yn ymdrin â mater sy'n ymwneud ag addysgu neu ryngweithio wyneb yn wyneb.
- Rydym yn parhau i ddilyn y polisiâu a'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am achosion o gamddefnyddio bob amser. Fel yr amlinellir yn y [canllawiau Cadw dysgwyr yn ddiogel](#), mae gan ymarferwyr ddyletswydd i roi gwybod os oes plentyn mewn perygl (gan gynnwys cam-drin ar-lein) o dan adran 130 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Os fydd gennym unrhyw bryderon diogelu am blentyn, byddwn yn eu trafod â'r Swyddogion Diogelu Dynodedig (DSP) ar gyfer yr ysgol gan sicrhau eich bod yn rhoi gwybod am bryderon cyn gynted â phosib.
- Os na allwn ni am unrhyw reswm gysylltu â'r Swyddogion Diogelu Dynodedig ar gyfer yr ysgol neu leoliad byddwn yn cysylltu â Thîm Gwasanaethau Plant yr awdurdod lleol a gan rhoi gwybod am ein pryderon.
- Os byddwn yn meddwl bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl y funud honno, byddwn yn cysylltu â'r heddlu ar 999.

Gweithredu

- Dylai pob gwers/sesiwn fideo-gynadledda neu wedi'i ffrydio'n fyw **gael ei chynnal drwy Hwb** gan ddefnyddio Microsoft Teams neu Google Meet, yn hytrach na darparwr allanol, neu drwy weithrediad yr ysgol/leoliad o Google/Microsoft 365.
- Dylai pob athro ddefnyddio dyfais sydd wedi'i darparu gan yr ysgol. **Ni ddylai** staff ysgol neu leoliad ddefnyddio eu hoffer personol eu hunain o dan unrhyw amgylchiadau.
- Dylid rhoi sylw dyledus i'r ystyriaethau a amlinellir yn y canllawiau hyn er mwyn sicrhau bod dysgwyr ac ymarferwyr yn cael eu gwarchod a'u diogelu'n briodol.

Y gwahaniaethau rhwng fideo-gynadledda a digwyddiadau ffrydio byw

Mae'n ddefnyddiol nodi'r gwahaniaeth rhwng fideo-gynadledda a ffrydio byw a'u defnydd a'r manteision a fwriedir fel y gallwch ddewis y fformat priodol ar gyfer eich gweithgaredd.

Beth yw fideo-gynadledda?

Mae fideo-gynadledda yn ddull cydamserol sy'n cynnwys sawl parti gyda'r opsiwn i bob cyfranogwr ddefnyddio camera a sain. Mae gofyn i'r holl gyfranogwyr gymryd rhan ar yr un pryd.

Defnydd posibl

- Hwyluso cyfarfodydd staff.
- Lle na ellir cynnal cyfarfod ffisegol megis cynnal sesiwn dal i fyny ar les neu gynnal apwyntiad AAA/ADY.
- Cyflwyno sesiynau bugeiliol neu addysgu mewn grwpiau bach. Darparu gwersi dosbarth.
- Cysylltu dau safle o ddysgu cydamserol, er enghraifft, dwy ystafell ddosbarth ar safleoedd gwahanol.

Manteision a fwriedir

- Yn cynnig cyfle i gyfranogwyr gael cyswllt wyneb yn wyneb mewn amser real.
- Hwyluso rhyngweithio.
- Effeithiau cadarnhaol o ran ymgysylltiad a lles dysgwyr.
- Defnyddiol ar gyfer cadw mewn cysylltiad â dysgwyr.
- Mae'r dysgwyr yn cael adborth yn y fan a'r lle ac mae'r adborth yn rhyngweithiol.
- Defnyddiol mewn ardaloedd lle mae mynediad at bynciau neu gysiau penodol yn gyfyngedig am resymau daearyddol.
- Yn galluogi cymorth unigol.
- Gellir ei ddefnyddio i alluogi plant a phobl ifanc i gadw mewn cysylltiad â'u cyfoedion a chymryd rhan mewn dysgu grŵp, er enghraifft, trafodaethau.

Beth yw ffrydio byw?

Mae digwyddiadau ffrydio byw yn ddull anghydamserol sy'n cynnwys llif fideo gan ddarllledwr i wylwyr. Ni ellir gweld na chlywed gwylwyr er y gall fod yn bosibl rhyngweithio drwy negeseuon wedi'u teipio. Gellir gwyllo digwyddiadau a gaiff eu ffrydio'n fyw yn fyw neu gellir cael mynediad atynt ar ôl iddynt gael eu recordio.

Defnydd posibl

- Cyflwyno gwersi dosbarth i ddysgwyr.
- Cyflwyno darlithoedd neu wasanaethau ysgol ar raddfa fawr.
- Cyflwyno gweminarau.

Manteision

- Mae digwyddiadau sy'n cael eu ffrydio'n fyw yn cynnig hyblygrwydd gan y gellir cael gafael ar y gwersi ar adeg sy'n gyfleus i ddysgwr a/neu eu teulu.
- Gallai fod yn haws i rieni/gofalwyr a dysgwyr ymdopi gartref.
- Er nad oes rhyngweithio geiriol neu weledol ar gael i'r gwylwr, os yw'n gwyllo'n fyw, efallai y gall cyfranogwyr ofyn cwestiynau gan ddefnyddio'r blwch testun sy'n galluogi rhywfaint o ryngweithio.

Y gwahaniaethau rhwng gwersi a sesiynau

Mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio at wersi a sesiynau fideo-gynadledda a ffrydio byw. At ddibenion y canllawiau hyn:

- mae **gwersi** yn cyfeirio at gyflwyno gwersi ystafell ddosbarth – boed hynny drwy fideo-gynadledda neu drwy ddigwyddiad sy'n cael ei ffrydio'n fyw
- mae **sesiwn** yn cyfeirio at enghreifftiau y tu allan i wers arferol lle gall fod dim ond un dysgwr yn bresennol, megis sesiwn dal i fyny ar les gyda dysgwr neu apwyntiad anghenion addysgol arbennig (AAA)/angen dysgu ychwanegol (ADY).

Y prif ystyriaethau – arferion diogel wrth ddefnyddio fideo-gynadledda a ffrydio byw

Mae nifer o ystyriaethau allweddol i sicrhau defnydd diogel ac effeithiol o fideo-gynadledda a ffrydio byw. Nodir y rhain isod.

Ystyriaethau cychwynnol

I benderfynu a ddylid defnyddio fideo-gynadledda neu ddigwyddiad ffrydio byw, rhaid i ymarferwyr addysg ac ymarferwyr eraill ystyried:

- diben, manteision, cyfyngiadau a phriodoldeb gwera fideo-gynadledda neu gwera/sesiwn ffrydio byw
- priodoldeb i bob dysgwr yn seiliedig ar ei amgylchiadau unigol
- pa ddysgwyr fydd ar gael, e.e. a fydd **pob** dysgwr ar gael? A fydd angen i rai ymuno neu adael ar adegau gwahanol?
- nifer y dysgwyr mewn gwera neu sesiwn
- hyd ac amser gwera a sesiynau, gan sicrhau bod yr hyd a'r amser yn briodol i'r dysgwyr dan sylw
- y cysylltedd a'r dyfeisiau sydd ar gael i ddysgwyr ac aelodau staff.

Paratodau

Os penderfynir bod gwera/sesiwn fideo-gynadledda neu ffrydio byw'n addas ac yn briodol i'r ymarferydd a'r dysgwyr, dylid gwneud y canlynol fel rhan o unrhyw baratodau.

- Gofyn am awdurdodiad gan uwch dîm arwain eich ysgol neu'r lleoliad cyn cynnal gwera/sesiynau fideo-gynadledda neu ffrydio byw a rhoi gwybod iddynt am yr amserlen a drefnwyd ar gyfer pob gwera/sesiwn. ***Mae hyn wedi ei gymeradwyo eisoes i bob athro o dan sefyllfa Covid 19.***
- Os ydych chi'n dewis defnyddio fideo-gynadledda gofawch fod y wera yn cael ei chynllunio ymlaen llaw, a dylid rhoi digon o rybudd i ddysgwyr a rhieni a gofawr yn ôl yr angen. ***Dilyn amserlen arferol yn ystod cyfnod Covid 19.***
- Sicrhewch fod cytundebau defnydd priodol ar waith ar gyfer pob dysgwr sy'n cymryd rhan mewn gwera/sesiynau fideo-gynadledda a ffrydio byw a bod y cytundebau hyn yn cael eu cyfleu'n glir i ddysgwyr a'u rhannu gyda rhieni a gofawr. Bydd y cytundeb yn egluro disgwyliadau clir gan bob parti, ac yn nodi'r camau a fydd yn cael eu cymryd os torrir y cytundeb. ***Wedi ei wneud gyda phob disgybl.***
- Dylech gadw cofnod canolog o'r holl ddigwyddiadau ar-lein ynghyd â rhestr o fynychwyr.
- Dylech sicrhau bod gan yr holl ddysgwyr fynediad at y cymwysiadau meddalwedd angenrheidiol (megis Google Meet) – gellir hwyluso hyn drwy blatfform Hwb.
- Dylech wneud yn siŵr bod yr holl gynnwys yn briodol, ac ar gyfer unrhyw dasgau a fydd yn golygu gwneud ymchwil ar-lein, gwneud yn siŵr bod y gwefannau'n addas cyn y wera.
- Os yw'r wera yn cynnwys tasgau, cofiwch y gall fod angen mwy o amser ar rai dysgwyr nag eraill.
- Dylech ymglyfarwyddo â swyddogaethau Google Meet a sut i ddefnyddio'r adnodd a ddewisir yn effeithiol (mae rhagor o wybodaeth ar gael yng Nghanolfan Cymorth Hwb ar [Microsoft Teams](#) a [Google Meet](#)).

Lleoliad, gosodiadau camera a sain

Mae'n hanfodol eich bod yn ystyried lleoliad a gosodiadau camera a sain yn ofalus er mwyn bod yn broffesiynol ac yn gyfrifol bob amser. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd ymarferwyr neu ddysgwyr gartref. Rhaid i ymarferwyr ystyried y canlynol.

Lleoliad

Os yw ymarferydd yn arwain neu os yw dysgwr yn ymuno â galwad fideo-gynadledda neu ffrydio byw o bell:

- dewis lleoliad niwtral sy'n briodol ac yn ddiogel, e.e. ystafell fyw, stydi neu gegin neu ystafell yn Ysgol Bro Myrddin os oes angen
- annog y dysgwyr i weithio mewn man cymunedol addas yn y cartref, lle maent yn teimlo'n gyfforddus.
- leihau'r posibilrwydd y bydd aelodau eraill o'r aelwyd neu anifeiliaid anwes yn tarfu ar y wera.

Gosodiadau'r camera

- Dylech ystyried yn ofalus beth sydd i'w weld o flaen y camera, h.y. gwnewch yn siŵr bod y cefndir yn edrych yn broffesiynol, ac nad yw'n cynnwys lluniau na gwybodaeth na ddylid eu rhannu neu a allai gael eu hystyried yn amhriodol.
- Efallai y byddai'n ddefnyddiol gofyn i 'gyfaill beirniadol' edrych ar beth sydd i'w weld o flaen y camera.
- Lle bo modd, **argymhellir bod ymarferwyr a dysgwyr yn newid eu cefndir fel arfer safonol**. Dylech fod yn ymwybodol na fydd pob dysgwr eisiau defnyddio'i gamera – ***ddylech chi ddim gorfodi neb i ddefnyddio'r camera***.

Sain

Mae'n well defnyddio clustffonau gyda microffon (fel y rhai sydd ar gael gyda llawer o ffonau symudol) er mwyn clywed y sain yn glir.

Ymddygiad proffesiynol

Dylai ymarferwyr sy'n ffrydio'n fyw barhau i weithio yn yr un ffordd broffesiynol ag y byddent yn yr ystafell ddosbarth.

Dylai ymarferwyr wneud y canlynol;

- Cadw at safonau proffesiynol o ran gwisg pan fyddan nhw o flaen y camera.
- Bod yn ymwybodol bod sylwadau'n cael eu clywed gan nifer o ddysgwyr mewn amgylchedd ar-lein, ac y byddai'n hawdd iddynt gael eu camddehongli.
- Dod â'r sesiwn i ben i **bawb**, gan wneud yn siŵr nad oes dysgwyr yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain a heb oruchwyliaeth mewn gwrs/sesiwn ar ôl i'r ymarferydd adael.
- Bod yn ymwybodol o'r angen am gyfrinachedd; yn enwedig wrth ffrydio gwrs yn fyw o leoliad lle mae oedolion neu blant eraill yn bresennol.

Recordio gwrsi a sesiynau fideo-gynadledda a ffrydio byw

Mae swyddogaeth recordio ar gael yn Microsoft Teams a Google Meet lle gall yr ymarferydd recordio'r wers/sesiwn.

Gan fod recordiad o fideo-gynadledda neu ffrydio byw yn gyfystyr â data personol, mae'n rhaid i chi gydymffurfio â pholisïau diogelu data eich ysgol neu leoliad a rheoliadau GDPR.

Noder: Ni fydd yr ysgol yn defnyddio unrhyw recordiadau at unrhyw ddiben gwerthuso.

Ymddygiad a disgwyliadau o ran cwrtseisi i ddysgwyr

Mae egluro ymddygiad a disgwyliadau derbyniol o'r cychwyn cyntaf yn hanfodol er mwyn sicrhau gwrs neu sesiwn effeithiol a threfnus.

Dylai ymarferwyr wneud y canlynol.

- Dylech sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o'r ymddygiad a'r gofynion disgwylidig gan gynnwys lleoliad i ymuno â'r wers/sesiwn a gwisg briodol.
- Dylech gyfleu'n glir y disgwylir ymddygiad 'o safon ystafell ddosbarth' gan bob cyfranogwr.
- Dylech greu a chytuno ar reolau sylfaenol clir ac ar safonau ymddygiad sy'n seiliedig ar bolisi rheoli ymddygiad presennol yr ysgol neu leoliad.
- Dylech egluro'r rheolau wrth gyflwyno'r wers/sesiwn, e.e. pwy sy'n cael siarad, sut mae gofyn cwestiwn neu ofyn am help.
- Os mai dyma'r tro cyntaf i wers/sesiynau gael eu cynnal ar-lein, efallai y bydd yn cymryd ychydig o amser i ymgylchedd newydd. Wrth ddefnyddio'r swyddogaeth sgwrsio, bydd modd ymgysylltu mewn ffordd strwythuredig â'r rhai sy'n bresennol.

Dylid parhau i atgoffa'r dysgwyr am y rheolau a gytunwyd ar ddechrau pob gwrs/sesiwn ac egluro sut gallan nhw fynegi pryderon os oes angen

Atodiad 1: Cwestiynau cyffredin

Beth ddylwn i ei wneud os bydd dysgwr yn ymuno â'r dosbarth o leoliad amhriodol?

Yn ddelfrydol, byddai dysgwyr yn mewngofnodi i'r dosbarth o fan cymunedol yn eu cartref. Mewn rhai amgylchiadau, gallai hyn roi baich afresymol ar y lleoedd sy'n cael eu defnyddio gan y teulu.

Dylai ymarferwyr asesu pob sefyllfa, a thrafod â'u Swyddog Diogelu Dynodedig neu'r pennaeth os ydyn nhw'n anghyfforddus â'r lleoliad(au) mae dysgwyr yn mewngofnodi ohonynt.

Mae dysgwr yn siarad neu'n ymddwyn yn amhriodol mewn gwers/sesiwn fideo-gynadledda neu ffrydio byw – sut dylwn i ymateb?

Mae'r holl safonau ymddygiad arferol yn berthnasol yn yr ystafell ddosbarth ar-lein. Er na fydd dysgwyr mewn amgylchedd ystafell ddosbarth arferol, lle bo modd, dylid ymdrin â materion a fydd yn codi yn yr un ffordd ag y byddech chi wedi ymdrin â nhw petai'r un peth wedi digwydd mewn amgylchedd ystafell ddosbarth arferol. Gofynnwch i uwch dîm arwain eich ysgol neu leoliad am gymorth os oes angen.

Mae dysgwr yn rhannu rhywbeth amhriodol ar ei sgrin – beth ddylwn i ei wneud?

Gall ymarferwyr dynnu enwau dysgwyr o'r rhestr o gyfranogwyr (**dileu**) os maent yn ymddwyn yn amhriodol. i ddileu rhywun yn Google Meet, dilynwch y cyfarwyddiadau hyn.

1. Ar y dde, ewch i People.
2. Pwyntiwch at yr unigolyn, ac yna cliciwch ar y saeth Back.
3. Cliciwch ar Remove.

Os bydd rhywbeth amhriodol yn cael ei rannu ar y sgrin, dylai ymarferwyr ddod â'r sesiwn i ben cyn gynted â phosibl a chodi'r mater gyda'r Swyddog Diogelu Dynodedig. Yna, gellir cysylltu â'r holl ddysgwyr a oedd yn yr ystafell cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad i egluro beth ddigwyddodd, a beth yw'r trefniadau ar gyfer gwersi/sesiynau yn y dyfodol.

Yn unol â'r canllawiau diogelu, bydd yn rhaid i'r ymarferydd ysgrifennu cofnod llawn yn y ffordd arferol.

Beth ddylwn i ei wneud os bydd dysgwyr yn mewngofnodi i'r wers/sesiwn wedi gwisgo'n anaddas?

Dylech ymdrin â hyn yn yr un ffordd ag y byddech chi mewn ystafell ddosbarth wyneb yn wyneb, ac yn unol â'r rheolau a gytunwyd. Dylai gosod disgwyliad clir ar y dechrau helpu i leihau hyn.

Mae dysgwr yn gofyn am gael sgwrs ar-lein un-i-un am fater difrifol sy'n ei boeni. Beth yw'r protocol ar gyfer hynny?

Dylai ymarferwyr blaenoriaethu lles dysgwyr. Os bydd angen i ddysgwr drafod mater difrifol, gellir gwneud hyn yn unol â pholisi a gweithdrefnau diogelu'r ysgol.

Mae ymarferydd yn gweld neu'n clywed rhywbeth yn ystod cyswllt ar-lein sy'n peri pryder iddo.

Os yn ystod cyswllt ar-lein gyda dysgwr y bydd ymarferydd yn gweld neu'n clywed unrhyw beth yn y cefndir sy'n peri pryder iddo, neu os yw ymddygiad y dysgwr yn achosi pryder iddo, mae'n rhaid iddo gyfeirio'r mater at y Swyddog Diogelu Dynodedig a dilyn polisi diogelu arferol eu hysgolion.